Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Pen-y-bryn

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Pen-y-bryn yn darparu cwricwlwm eang ac ysgogol sy'n dwysáu dealltwriaeth ac arddel gwerthfawrogiad disgyblion o'u treftadaeth yn llwyddiannus, ac yn eu hannog i edrych ymlaen at y dyfodol yn hyderus. Mae staff yn rhannu gweledigaeth glir i feithrin dinasyddion egwyddorol a mentrus sy'n falch o'u cymuned a'r iaith Gymraeg. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau ystyrlon sy'n meithrin medrau trawsgwricwlaidd ac sy'n adlewyrchu hanes, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn llwyddiannus. Maent yn manteisio i'r eithaf ar adnoddau yn yr ardal leol er mwyn cyfoethogi addysg disgyblion, fel wrth wahodd arbenigwyr i'r ysgol ac ymweld â safleoedd addysgol perthnasol. Trwy hyn, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth drylwyr o'u hardal leol fel cyfrwng i ddylanwadu'n  ehangach ar eu bywydau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, maent yn cyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn darllen testunau'n  annibynnol ac yn ysgrifennu'n greadigol. Mae athrawon yn ymgorffori cyfleoedd mentergarwch bwriadus yn y cwricwlwm fel dull o ddatblygu medrau disgyblion yn ystyrlon a chreu cysylltiadau ymarferol pellach â'r gymuned leol.

Mae athrawon yn defnyddio dulliau addysgu effeithiol sy'n annog disgyblion i feddwl a chydweithio'n llwyddiannus. Maent yn holi'r disgyblion yn fedrus ac yn cynnig adborth adeiladol i ddisgyblion, sydd, yn ei dro, yn arwain at gynnydd parhaus ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae cyflymder yr addysgu yn addas, ar y cyfan, ond ar adegau mae staff yn gor-arwain y disgyblion sy'n arafu'r dysgu ac yn cyfyngu ar gyfleoedd iddynt weithio'n annibynnol a chyflawni hyd orau eu gallu.

Mae staff yn hyrwyddo gofal a lles disgyblion yn hynod effeithiol. Maent yn magu perthynas waith gadarnhaol â'r disgyblion sy'n cefnogi'r ddysgu yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ymddygiad cadarnhaol y rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn meithrin agweddau iach at ddysgu.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi a darparu her a chefnogaeth berthnasol i arweinwyr mewn modd adeiladol. Mae prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella yr ysgol yn gadarn, ond nid yw arweinwyr bob amser yn sicrhau bod y gweithdrefnau hunanwerthuso mor drwyadl ar draws y ffederasiwn cyfan.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Sicrhau cyflymder addas ymhob sesiwn ddysgu i gryfhau medrau dysgu annibynnol disgyblion ymhellach

A2 Cryfhau gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella ar draws y ffederasiwn

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/08/2025